

# Rydym ni'n falch o fod yn rhan o'r Cynllun Cenedlaethol Croesawu Bwydo ar y Fron!



Creu lle diogel a chefnogol ar gyfer teuluoedd — gyda'n gilydd.

## Beth yw'r Cynllun Cenedlaethol Croesawu Bwydo ar y Fron?

Menter gan Iechyd Cyhoeddus Cymru sy'n helpu sefydliadau ledled Cymru i hyrwyddo amgylcheddau sy'n gyfeillgar i fwydo ar y fron — fel bod mamau'n teimlo'n hyderus yn bwydo'u babanod, ble bynnag y maent.

## Beth Ddylai Staff ei Wybod

- Mae gan famau hawl gyfreithiol i fwydo ar y fron yn gyhoeddus o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- Mae ein sefydliad wedi ymrwymo i groesawu a chefnogi teuluoedd sy'n bwydo ar y fron
- Chwiliwch am y sticer Croesawu Bwydo ar y Fron — mae'n dangos ein bod yn rhan o'r cynllun
- Mae gwên gynnes, agwedd gymwynasgar, a rhoi sicrwydd yn mynd ymhell!

## Pam Mae'n Bwysig

- Mae bwydo ar y fron yn gwella canlyniadau iechyd i fabanod a mamau
- Mae lleoedd cyhoeddus cefnogol yn helpu teuluoedd i barhau i fwydo ar y fron yn hirach
- Rydym ni'n helpu normaleiddio bwydo ar y fron a hyrwyddo iechyd cyhoeddus yng Nghymru

## Mae Eich Rôl yn Gwneud Gwahaniaeth

Mae pob math o ryngweithio'n cyfri. Gadewch i ni wneud yn siŵr fod pob mam yn teimlo'n ddiogel, yn gyfforddus ac wedi'i grymuso i fwydo'i baban – ble bynnag y mae.

I fanteisio ar adnoddau a hyfforddiant yn gysylltiedig â'r cynllun, sganiwch y cod QR isod:



Os oes gennych chi gwestiynau neu i gael mwy o wybodaeth:  
[PHW.NBFWelcome@wales.nhs.uk](mailto:PHW.NBFWelcome@wales.nhs.uk) / [ICC.CFFCroeso@wales.nhs.uk](mailto:ICC.CFFCroeso@wales.nhs.uk)